

AP5.2 Sicrhau bod y cynllun yn cyfeirio at y system Metro arfaethedig yng Ngogledd Cymru. Geiriad i fod mewn ysgrifen trwm i'w ychwanegu ar ddiwedd Paragraff 5.36.

5.36 Mae'r Cynllun yn cael ei baratoi ar gyfnod o newid, gyda'r ffocws ar gyflawni twf a ffyniant economaidd ar lefel Sir a lefelau isranbarthol a rhanbarthol. Mae Glannau Dyfrdwy wedi'i ddynodi fel Parth Menter, ac mae'r Sir wedi'i gynnwys mewn nifer o fentrau twf economaidd, gan gynnwys Northern Powerhouse, Cynghair Mersi A'r Ddyfrdwy, Trac Twf 360 a chynnig y Fargen Dwf. Rhan allweddol o'r Parth Menter yw Safle Strategol Porth y Gogledd (gweler polisi STR3) sy'n derbyn buddsoddiad seilwaith cludiant gan Llywodraeth Cymru, ynghyd ag ystod o welliannau eraill i gludiant yn ardal Glannau Dyfrdwy i wella hygyrchedd a chyfleoedd cyflogaeth. Mae'r mentrau is-ranbarthol a rhanbarthol, yn ogystal â Chynllun Glannau Dyfrdwy, yn nodi'r angen am fuddsoddiad mewn cludiant i helpu darparu twf economaidd parhaus. Yn y tymor hirach, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynlluniau ar gyfer system Metro yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, i gynnwys dull rhwydwaith o ran cludiant ar draws ystod o ddulliau a phrosiectau trafndiaeth. Mae **Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040 yn nodi ym Mholisi 23 – “Metro Gogledd Cymru: Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi datblygiad Metro Gogledd Cymru, a bydd yn cydweithio gyda Trafnidiaeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i alluogi ei ddarpariaeth a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cysylltiedig.” Bydd hyn yn cynnwys:**

- **Gwasanaethau rheilffordd a bws gwell ac integredig ledled Gogledd Cymru/Swydd Gaer**
- **Lein y Gororau gwell gyda gwasanaethau uniongyrchol a chynt rhwng Wrecsam a Lerpwl, gan ei integreiddio gyda gwasanaethau Merseyrail**
- **Gorsafoedd ychwanegol ac estyniadau posibl**
- **Uwchraddio gorsafoedd Wrecsam Gyffredinol a Shotton**
- **Estyniad pellach i'r rheilffordd ac/neu ystyried ailagor (Ffynhonnell: Rheilffordd i Gymru - Diwallu Anghenion Cenedlaethau'r Dyfodol, 2019)"**